**Y Pwyllgor Diwylliant Ref CC 04-03 (p.5)**

**Dyddiad:** 26 Chwefror 2003

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1

**Teitl:** Datganiad y Gweinidog ar sefyllfa ddiweddaraf yr adolygiad polisi o'r diwylliant Eingl-Gymreig (sesiwn cwmpasu)

## Diben

Rhoi datganiad ar sefyllfa ddiweddaraf adolygiad polisi'r Pwyllgor o'r Diwylliant Eingl-Gymreig

## Materion i'w Hystyried

Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ganlynol at ddiben yr adolygiad o ystyried y cynnig y dylid rhoi’r sylw pennaf i lenyddiaeth Gymreig cyfrwng Saesneg, drama Gymreig cyfrwng Saesneg (theatr) a Drama Gymreig cyfrwng Saesneg (teledu a ffilm).

## Creative Future: Cymru Greadigol

Mae Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth y Cynulliad *Creative Future: Cymru Greadigol* yn rhoi syniad da o sefyllfa'r Diwylliant Eingl-Gymreig. Mae'r strategaeth yn dweud bod "Dwyieithrwydd yn berl gwerthfawr ymhlith ein trysorau cenedlaethol". Y nod yw gweld dwyieithrwydd yn cael ei wireddu ym mhob agwedd ar fywyd diwylliannol ac mewn byd y chwaraeon yng Nghymru. Mae yna gyfleoedd i bawb gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a phrofiadau diwylliannol eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Un arall o nodweddion pwysig Cymru Greadigol yw'r pwyslais ar Amrywiaeth Ddiwylliannol, sy'n cydnabod yr effaith y mae diwylliannau eraill yn ei chael ar ein diwylliant ni yng Nghymru.

## Sgript Cymru

Corff sydd wedi'i sefydlu â refeniw gan Gyngor y Celfyddydau yw Sgript Cymru, a'i gylch gwaith yw annog, meithrin a datblygu drama newydd yng Nghymru. Mae'r cwmni yn gwneud hyn yn ddwyieithog. Mae wedi cael swm sylweddol fwy o arian eleni yn ogystal â'r 15% yn fwy a gafodd pob un o gleientiaid refeniw y Cyngor yn 2002-03. Mae Sgript Cymru, ynghyd â

Theatr Clwyd Cymru, yn allweddol i'r gwaith o ddatblygu ysgrifennu dramâu Eingl-Gymreig.

**Sgriptio ar gyfer ffilm**

Mae Cyngor y Celfyddydau yn cynnal cynllun peilot newydd ar gyfer sgriptwyr ffilm unigol. Mae Cynllun Arian Loteri Sgrin a Chyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer sgriptwyr ffilm wedi ymrwymo i ddatblygu'r diwydiant ffilm yng Nghymru ac mae'n ceisio gwneud hyn yn bennaf drwy roi cymorth i gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru gynnal prosiectau datblygu a chynhyrchu. Nod y cynllun peilot yw:

- cynnig gwell cyfle i ddod o hyd i ddoniau newydd a'u meithrin
- cynnig cyfle i awduron sydd wedi ennill eu plwyf gwblhau sgript ffilm ddrafft cyn cychwyn trafodaethau gyda chwmni cynhyrchu
- cynyddu nifer y sgriptiau ffilm sy'n cael eu datblygu gyda golwg ar greu meithrinfa estynedig y gall y diwydiant cynhyrchu yng Nghymru elwa ohoni
- rhoi cyfleoedd i awduron sydd wedi'i geni neu sy'n byw yng Nghymru neu sy'n datblygu prosiectau sy'n amlwg berthnasol i Gymru.

**Cyhoeddi**

Yn 2001/02, dyfarnodd Cyngor y Celfyddydau gyfanswm o £315,084 mewn grantiau ar gyfer cyhoeddi cylchgronau yn y ddwy iaith.

O Ebrill 2003 ymlaen, yr Academi fydd yn gyfrifol am y gwasanaethau i awduron unigol a throsglwyddir y cyfrifoldeb dros roi cymorth ariannol i gyhoeddwyr cyfrwng Saesneg i Gyngor Llyfrau Cymru.

**Y Cyfryngau**

Mae Sgrin, Asiantaeth Cyfryngau Cymru, yn gyfrifol am ddatblygu gweledigaeth strategol ar gyfer ffilm, teledu a chyfryngau newydd yng Nghymru. Nod Sgrin yw codi proffil, helpu datblygiad diwylliannol ac annog pobl i gymryd rhan ym mhob agwedd ar ffilm, teledu a chyfryngau newydd. Mae amryw o gyrff yn ariannu Sgrin, gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor y Celfyddydau, S4C a BBC Cymru.

Mae Sgrin a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyd-ariannu Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, a sefydlwyd yn 2001, ac sydd wedi'i lleoli yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Mae BBC Cymru ac ITV Cymru yn comisiynu a darlledu rhaglenni teledu yn Saesneg, a chaiff rhaglenni radio Saesneg eu darlledu ar BBC Radio Wales ac ar nifer o orsafoedd radio annibynnol. Saesneg, bron yn ddieithriad, yw iaith y prif bapurau newydd dyddiol a hwyrol yng Nghymru.

## Gwyliau

Mae’r rhan fwyaf o wyliau’n canolbwyntio ar gerddoriaeth, ond mae un sy’n rhoi sylw i lenyddiaeth ac ysgrifennu’n unig, sef Gwyl Lenyddiaeth y Gelli, yn y Gelli Gandryll. Nid dim ond am gynnal yr wyl y mae’r Gelli yn enwog ond am fod 1300 o bobl yn byw yno mewn tref a chanddi 39 o siopau llyfrau. Daw 50,000 o ymwelwyr i’r Gelli o bob ran o’r DU, Ewrop ac America i ddathlu llenyddiaeth mewn awyrgylch hwyliog, gan gyfnewid syniadau a straeon ac ymuno â’r gynulleidfa i wrando ar lawer o awduron adnabyddus a llwyddiannus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi tua £37,000 at yr wyl.

## Drama

Mae *Cymru Greadigol: Creative Future* yn gofyn i Gyngor y Celfyddydau ddatblygu strategaeth ddrama newydd a fydd yn rhoi mwy o gyfle i bobl fynd i'r theatr broffesiynol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Y nod yw meithrin gallu'r cwmnïau i gynhyrchu mwy o ddramâu yng Nghymru er mwyn sicrhau y gall cynulleidfaoedd weld gwaith o safon yn gyson.

Yn ogystal, mae’r Cynulliad yn gweithio’n agos â Chyngor y Celfyddydau a grwpiau a ffigurau allweddol eraill i ddatblygu ffordd, a fydd wedi’i chydgysylltu’n genedlaethol yng Nghymru, o sefydlu theatr cyfrwng Saesneg yng nghyd-destun lansio Canolfan Mileniwm Cymru.

## Clwyd Theatr Cymru/ Theatr Genedlaethol Saesneg ei hiaith

O ran Theatr Genedlaethol Saesneg ei hiaith, mae Theatr Clwyd Cymru wedi'i dynodi fel Theatr Genedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi £560, 000 i’r Theatr dros gyfnod o ddwy flynedd i ddileu’r swm sy’n ddyledus i Gyngor Sir y Fflint. Mae’r Cynulliad hefyd yn gweithio’n agos â Chyngor Sir y Fflint a Chyngor y Celfyddydau i roi’r theatr ar sylfaen ariannol gadarn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y ffordd orau o gyflunio’r trefniadau rheoli ar gyfer adeilad y theatr a rhannau cynhyrchu a pherfformio Theatr Clwyd Cymru.

## Theatr mewn Addysg

Mae'r wyth cwmni theatr mewn addysg ledled Cymru yn gweithio'n bennaf ar sgriptiau drama newydd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, y mae'r cwmni naill ai wedi'u datblygu neu wedi comisynu dramodwyr i'w hysgrifennu. Cafodd pob cwmni 15% yn fwy o arian yn 2002-03. Fel rhan o strategaeth 5 mlynedd Cyngor y Celfyddydau, mae'n fwriad i ddatblygu gwaith y cwmnïau hyn yn sylweddol drwy gynyddu nifer ac amrywiaeth y cynyrchiadau. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o ddramâu newydd yn cael eu creu'n benodol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

**Opera Cenedlaethol Cymru**

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn enghraifft dda o gydweithredu Eingl- Gymraeg gan ei bod yn un o gleientiaid refeniw Cyngor Celfyddydau Lloegr a Chyngor Celfyddydau Cymru. Daw 60% o'r cymorth ariannol o Loegr a 40% o Gymru. Mae prif gynhyrchiadau Opera Cenedlaethol Cymru yn mynd ar daith ledled Cymru a Lloegr. Mae'r cwmni Opera hefyd yn gwneud llawer o waith maes yn y Gymuned ynghyd â gwaith addysgol, fel y mae Clwyd Theatr Cymru yn ei wneud.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

Ystyried y papur hwn ar sefyllfa ddiweddaraf yr adolygiad ar Ddiwylliant Eingl-Gymreig.

**Jenny Randerson**

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**

Man Cyswllt: Y Gyfarwyddiaeth Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg